# <u>Rhaglen Cyngor Cymuned Llanystumdwy</u>,

## Cyfarfod y Pwyllgor Cynllun Busnes- nos Iau, 5ed o Hydref, 2023 yn Ystafell Myrddin Neuadd Chwilog a drwy 'Zoom', am 6:30 y.h. o flaen y prif gyfarfod.

***<u>Ar y Pwyllgor</u>***: Y Cynghorwyr Sian Parry, Aled Davies, Anwen Jones, Aled Lloyd Evans, Sion Aled Jones, Tegid Jones, a'r Clerc.

***<u>Ymddiheuriadau</u>***.

Ar y rhaglen.

1. Cadarnhau a llofnodi cofnodion y Pwyllgor Busnes gynhaliwyd ar 6ed o Hydref, 2022.

2. **<u>Cyllideb 2023/24</u>** a throsolwg o wariant y Cyngor hyd yma. Mae taflenni wedi cael eu rhannu drwy ebost o flaen y cyfarfod, er mwyn ei cymharu gyda'r gyllideb a wnaed.

- Y gyllideb arian /gwariant hyd at 31.03.2024 yn cael ei ddiweddaru'n fisol
- Y gyllideb arian / gwariant (amcangyfrif) am 2024-2025-angen trafod

Mae rhain yn dangos amlinelliad o'r gwariant sydd i ddod cyn diwedd y flwyddyn ariannol, sef diwedd Mawrth 2024.

Ar 05.10.2023 roedd y symiau isod yn y 2 cyfrif:-

| **Cyfrifon** | **£** | |
|---|---|---|
| Cyfrif cyfredol | 23,345.19 | Cynnwys Lightsource a Grant Cronfa Park-Jones(£2000.00) |
| Cyfrif cadw | 4,635.17 | |
| **Cyfanswm** | **27,980.36** | |

3. **<u>Cynlluniau gwariant o rwan hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol yma.</u>**
Mae ambell beth angen ei talu, ond mae'r symiau i gyd yn dangos ar y rhestr 'rhagolwg'.

Fe ddaw ad-daliad am arian llwybrau hefyd gan Cyngor Gwynedd, tua £417.80. Bydd angen i'r Clerc anfon llythyr at yr Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Dwyfor fis Ionawr 2024, i wneud cais am ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned.

4. **<u>Prosiectau posibl, neu wedi ymrwymo iddynt am y flwyddyn Ebrill 2024-2025:-</u>**
- Cof Eifionydd
- Cyngor Gwynedd-toiledau Llanystumdwy - £2000.00 y flwyddyn
- Clirio tir y Cyngor ym Maenywern – angen gwneud hyn yn flynyddol.
- Tir y Cyngor Rhydybenllig – dim wedi ei wneud yno ers tro, ond efallai ei adael oherwydd yr adroddiad bioamrywiaeth.
- Wifi y 3 lleoliad bob blwyddyn.

- Cadw safle bedd Lloyd George yn daclus – tua £120.00 bob blwyddyn.
- Cae chwarae Llangybi – cynnal a chadw/cais am grant.
- Unrhyw syniadau eraill

5. **Arian Cyfraniad Budd-Cymunedol**, fferm solar Gelli Gron, Llangybi.
Derbyniwyd £4,7190.95 ar 10.01.2023, a bydd swm tebyg yn cael ei dderbyn eleni.

Bydd angen talu am y Wifi i Neuaddau Llanystumdwy, Chwilog a Phencaenewydd. Llynedd roedd y ffigwr yma'n £1253.64.

6**. Dewis Praesept 2024–2025** - fe godwyd y ffigwr i £19,000.00, eleni.
Bydd angen gwneud **penderfyniad terfynol yn ein cyfarfod llawn ar 01.12.2023.**

7. **Penderfynu faint o arian y dylid ei glustnodi ar gyfer y ceisiau ariannol Chwefror 2024.**
Llynedd talwyd £8,903.64 o'r cyfrif cyfredol (roedd hyn yn cynnwys cyfraniad Wifi). Mae'n anodd dweud faint o geisiadau a ddaw eleni, ond bydd angen gwneud penderfyniad terfynol yn y cyfarfod llawn fis Ionawr 2024.

(Uchafswm gwariant yw *£9.93 x 1521* o boblogaeth o fewn cymuned Llanystumdwy = *£15,103.53*)